***Cyngor Cymuned Llanllwchaearn Community Council***
***Haulfan, Llanarth, Ceredigion. SA47 0NH***
***Clerc/Clerk: Shan Gwyn Phone/Ffon: 01545 580818***

**Cofnodion Cyfarfod 10.12.20 - drwy 'Zoom'**

**Yn Bresennol**
Y Cynghorwyr Gill Hearne (Yn y gadair), Gareth Ioan, Dai Morgan, Mel Jones, Silyn Roberts, Euros Lloyd, Gareth Lloyd a'r clerc.

**Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng Meleri Richards.

**Materion Personol**
Estynnwyd ein cydymdeimlad dwysaf i'r Cyng Silyn Roberts a'r teulu ar golli anwyliaid yn ddiweddar.

**Cofnodion**
Cynigiwyd cofnodion mis Tachwedd yn gywir gan y Cyng Gill Hearne ac ategwyd hyn gan y Cyng Euros Lloyd.

**Materion yn Codi o'r Cofnodion**
*Cynllun mesur cyflymdra traffig* Mae'r clerc wedi dosbarthu'r llythyron ym Mhentre'r Bryn.

*CSC - Golau Stryd ychwanegol* Mae'r Cyng Dai Morgan wedi cwrdd gyda swyddog o gwmni SSE. Mi fydd y gost o ddarparu golau ychwanegol yn £3,529.12 heb TAW. Cytunwyd i fwrw ymlaen gyda'r prosiect yma.

*Llywodraeth Cymru* Mi fydd y Cyng Gareth Ioan yn bwrw golwg dros yr Ymgynghoriad ar Sefydlu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021, gan lunio ymateb ar ran y Cyngor.

**Adroddiad Ariannol**
Derbyniwyd adroddiad ariannol mis Tachwedd yn gywir.

**Gohebiaeth**
*CSC – Trefniadau'r Praesept* Penderfynwyd gadael y lefel praesept yr un fath am y flwyddyn ariannol nesaf. Felly mi fydd y clerc yn cyflwyno cais am £9,000.00.

**Ceisiadau Cynllunio**
*A200907 Ger y Nant, Cross Inn* - Trawsnewid garej bresennol ar gyfer darparu ystafell wely ag ystafell ymolchi ychwanegol – Derbyniwyd e-bost oddi wrth Gwennan Jenkins, Swyddog Cynllunio yn adroddd fod y cynllun yn dod o dan 'Permitted Development' ac felly nid oes angen caniatad cynllunio arno. Fodd bynnag os fydd yn cael ei ddefnyddio fel dau annedd ar wahan, yna mi fydd angen caniatad cynllunio arno.

*A200391 Pencnwc Holiday Park, Cross Inn* – Derbyniwyd gwybodaeth ynglŷn â'r cais yr ydym eisoes wedi ystyried. Penderfynwyd danfon sylwadau pellach gan gadarnhau ein bod yn cefnogi'r fenter sydd nid yn unig yn bwydo'r economi leol ond yn creu nifer o swyddi ar gyfer pobl leol. Mae'r Cyngor hefyd yn croesawi'r cynllun ar gyfer ymestyn y ddau lwybr

cyhoeddus sy'n croesi tir yr ymgeisydd. Mi roedd y Cynghorwyr yn cytuno gyda'r Adran Briffyrdd ynglyn a'r gofyn i ymestyn y cyfyngiad cyflymder sy'n arwain at mynedfa'r safle. Yn olaf nodwyd nifer o bryderon pobl leol ynglyn a'u preifatrwydd petai'r cais yn cael ei caniatáu yn y ffurf bresennol.
Wnaeth y Cynghorwyr Gill Hearne ac Euros Lloyd ddatgan diddordeb ynglyn a'r cais yma.

**Unrhyw Fater Arall**
*Peiriant Adfywio Calonnau, Maenygroes* Mae'r Cyng Gill Hearne wedi bod mewn cysylltiad gyda Pauline Bett ynglyn a'r padiau newydd sydd angen ar y peiriant yn Maenygroes. Cytunwyd i brynu'r padiau newydd sydd angen am y gost o £32.50 a £3.99 chost cludo. Mi fydd y clerc yn gofyn i Pauline hefyd i ymweld a'r peiriannau sydd wedi eu lleoli yng Nghei Bach a Chross Inn er mwyn gweud yn siwr eu bod i gyd yn weithredol.

*CSC – Adran Briffyrdd* Cytunwyd y dylid danfon llythyr o ddiolch i'r Cyngor Sir am y gwaith y maent wedi gwneud ger pen heol Blaenrhyd, ger Glannant ac hefyd ger Glynhawen, Caerwedros. Maent wedi goresgyn y broblem o ddŵr ar arwyneb y ffyrdd yn y lleoliadau yma.

*Dŵr ar ffordd ger Rhydalen* Mi fydd y clerc yn cysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglyn a'r dŵr sy'n crynhoi yn y lleoliad yma yn ystod cyfnodau gwlyb. Mae trigolion pentref Cross Inn yn hoff o gerdded y ffordd yma ond mae'r dŵr yn rhwystro hyn.

*Grantiau* Penderfynwyd danfon llythyr i'r sefydliadau sy'n arfer derbyn grant wrth y Cyngor. Mae'n debygol nad ydy'r sefydliadau wedi gwario grantiau a dosbarthwyd y llynedd oherwydd COVID-19. Mi fyddwn yn awgrymu eu bod yn gwario'r arian hynny yn ystod y flwyddyn i ddod. Yn y cyfamser mae croeso iddynt gyflwyno cais am eitemau neu weithgaredd ychwanegol sydd yn eu cynorthwyo i ymateb i'r sefyllfa gyfredol.